OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 220 (Cy.27)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - 3 Chwefror 2008
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 5 Chwefror 2008
Yn dod i rym - - 29 Chwefror 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a rodddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 2(2)(a) a 190(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008, a deuant i rym ar 29 Chwefror 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

ystyr "y Cyd-gyngor Cenedlaethol" ("*the National Joint Council*") yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol; a

ystyr "Cynllun y Cyd-gyngor Cenedlaethol" ("*the National Joint Council's Scheme*") yw Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

3. Y swm at ddibenion adran 2(2) o'r Ddeddf (cyhyd â bod y swm yn fwy na £19,500) yw'r swm hwnnw a gyhoeddir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol o dro i dro o ran swyddi llawnamser o dan awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr fel y swm a ddynodir ar gyfer pwynt 49 ar y golofn gyflog

(**1**) 1989 (p.42).
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 2(2)(a) a 190(1), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Gymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hynny i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.